**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyflawni Corfforedig yr Economi ac Isadeiledd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 23 Chwefror 2023 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| C R Doyle | W G Lewis | P Lloyd |
| N L Matthews | P M Matthews | S J Rice |
| T M White | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gail Evans | Prif Reolwr Adfywio |
| Phil Homes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Paul Relf | Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol |
| Jonathan Wills | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Cynghorydd(wyr): W G Thomas

---

## 29 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 30 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Pwyllgor Datblygu Corfforedig yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023 fel cofnod cywir.

## 31 Glannau Afon Tawe a Chodi'r Gwastad

Cyfeiriodd y Prif Reolwr Adfywio at yr adroddiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Datblygu Corfforedig yr Economi ac Isadeiledd (PDC) ym mis Rhagfyr 2022 a oedd yn nodi'r cyd-destun polisi cynllunio ar gyfer ardal datblygu strategol Glannau Afon Tawe a'r Hafod-Morfa, ac a oedd yn adlewyrchu ar y gwaith a wnaed ar Strategaeth Glannau

Afon Tawe ddrafft (2019). Er bod y ddogfen strategaeth ddrafft wedi arwain datblygiad a buddsoddiad anffurfiol yn yr ardal, cytunwyd y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r PDC yn ystod gwanwyn 2023 i ystyried blaenoriaethau, cyfleoedd ariannu, cyflwyniad a chamau nesaf mewn perthynas â chamau gweithredu tymor hwy.

Roedd y prosiectau a nodwyd yn y Strategaeth Glannau Afon Tawe ddrafft wedi'u cynnwys yn y cais Codi'r Gwastad llwyddiannus ar gyfer Cwm Tawe Isaf yn 2023. Mae'r ail adroddiad diweddaru hwn felly yn amlinellu'r prosiectau allweddol a gynhwysir yn y cais ariannu hwnnw, ynghyd â chynnydd hyd yma gyda chynlluniau adfywio eraill yng nghoridor yr afon Tawe. Bwriedir i'r adroddiad fod yn adroddiad dros dro gydag adolygiad pellach o gamau gweithredu a rhaglenni maes o law, ar ddyddiad i'w gytuno.

Cyflwynodd y Prif Reolwr Archwilio, gyda chymorth y Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol, luniau a chynlluniau mewn perthynas ag:

- Ardal Adfywio Strategol Glannau Afon Tawe.
- Cais 2023 i Gronfa Codi'r Gwastad mewn perthynas â Chwm Tawe Isaf (prosiectau 1, 2 a 3).
- Prosiect 1A Gwaith Copr yr Hafod-Morfa: Melin Rholio.
- Prosiect 1B - Y Labordy.
- Prosiect 1C - Tai Injan Musgrove a Vivian.
- Prosiect 2 - Hygyrchedd Mannau Cymunedol a Dŵr
- Pontynau newydd yn y Morfa a Morfa Road/Glan yr Afon.
- Prosiect 2 - Bwâu Y Strand
- Prosiect 3 - Amgueddfa Abertawe

Cyfeiriodd y Rheolwr Datblygu Economaidd a Chyllid Allanol at yr amserlenni a manylodd ar y buddion i'r ddinas o ganlyniad i'r cais Codi'r Gwastad.

Manylodd y Prif Reolwr Adfywio ar raglen ehangach Gwaith Copr yr Hafod-Morfa a oedd yn cynnwys y cynnig hamdden Ceir Llusg Skyline, Pontŵn yr afon, Ardal Adfywio Morfa Road a Rhodfa Newydd Glan yr Afon, Cwm Tawe Isaf a Llwybrau Treftadaeth yr Hafod-Morfa.

Nododd y byddai cyllid Codi'r Gwastad yn rhoi hwb sylweddol i gymorth yn y camau adfywio nesaf ar gyfer nifer o brosiectau ar hyd coridor yr afon. Byddai'r prosiectau hynny'n gweithredu fel catalydd ar gyfer datblygiad ac adfywio pellach yn y man wrth i ni weithio tuag at yr amcan o ddarparu cyrchfan newydd yar gyfer glannau afon Abertawe.

O ran y camau nesaf ar gyfer y prosiect a nodwyd yn y cais Codi'r Gwastad, byddai adnoddau'n cael eu dyrannu i greu dyluniadau a dichonoldeb lle bo angen a byddai rhaglenni'n cael eu datblygu i sicrhau y gellir cyflawni hyn. Roedd y rhain yn feysydd gwaith sylweddol gyda dyddiad gorffen rhagweledig o 31 Mawrth 2025.

Roedd angen gwaith pellach i ddatblygu a mireinio'r uwchgynllun ar gyfer Gwaith Copr yr Hafod-Morfa, i ymateb i'r allbynnau o astudiaethau technegol a chynnwys nifer o ofynion datblygu a oedd yn dod i'r amlwg ar gyfer y safle. Byddai'r cyngor yn parhau i weithio gyda phrosiect ceir llusg Skyline ac Urban Splash i sicrhau bod y cynllun yn cyd-fynd ag amcanion cynllunio strategol a chreu lleoedd ac yn ymateb i ymgynghoriad cynlluniedig ac adborth gan randdeiliaid a chymunedau.

Nodwyd nifer o brosiectau eraill yn y Strategaeth Glannau Afon Tawe ddrafft (2019) y gellir eu harchwilio ymhellach, a gall fod mentrau newydd eraill y gellir eu hychwanegu at y cynigion a'r camau gweithredu hyn. Fodd bynnag, byddai problemau adnoddau ac ariannu sy'n golygu y byddai angen ystyried blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer y Tîm Adfywio a Chyllid Allanol, a fyddai'n arwain ar gyflwyno nifer o'r rhain ynghyd â'r ymrwymiadau a fydd yn ymddangos o'r cais diweddar a gymeradwywyd gan Gronfa Codi'r Gwastad.

Byddai adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r PDC yn hwyrach yn y gwanwyn i werthuso'r cwmpas ar gyfer prosiectau eraill ac adrodd yn ôl ar gynnydd gyda phrosiectau Codi'r Gwastad Cwm Tawe Isaf ac adfywio safleoedd allweddol.

Roedd trafodaethau'r aelodau'n canolbwyntio ar:

- Lwybr Cerdded Ochr Orllewinol Glan yr Afon - mae gwaith yn parhau mewn perthynas ag ymchwilio'r safle, gwaith dichonoldeb, dyluniadau, caniatâd cynllunio posib, cyllid (wedi'i gynnwys yn Adran 106), gyda thendrau a gwaith adeiladu ar ddiwedd y flwyddyn nesaf. Bydd Swyddogion yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor maes o law.
- Llwybr Cerdded Glan yr Afon/ymgynghoriad llwybrau cerdded natur/ymgysylltu â grwpiau buddiant lleol ac ysgolion.
- Potensial i gynhyrchu refeniw o ganlyniad i brydlesu man masnachol yn yr adeiladau arfaethedig.
- Cyllid mewn perthynas â'r cynllun Skyline.
- Y gwaith sensitif o ehangu cyfleusterau storio a mannau arddangos yn Amgueddfa Abertawe i sicrhau bod yr adeilad yn cadw ei swyn wreiddiol.
- Cyfleoedd i grwpiau buddiant lleol ymgymryd â phrosiectau adfywio ar gyfer darnau o gyfarpar sydd mewn man storio ar hyn o bryd (e.e. peirannau locomotif etc.)

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd:**

- y dylid nodi'r adroddiad; ac
- y bydd Swyddogion yn datblygu cynllun gweithredu mewn perthynas â blaenoriaethau/gwelliannau a chyfleoedd grant yn y dyfodol.

## 32 Cynllun Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith Pwyllgor Datblygu Corfforedig Yr Economi ac Isadeiledd 'er gwybodaeth' ar gyfer 2022-2023.

Nodwyd y pynciau i'w trafod yn y cyfarfod dilynol:-

- 23 Mawrth 2023 – Cyflwyniad i Strategaeth Bae Abertawe.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.38pm

**Cadeirydd**